Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Ymchwiliad i rôl Cymru yn y broses o wneud penderfyniadau yn yr UE

EU 7 - Pwyllgor Economaidd a Chymdeithasol Ewrop

# Tystiolaeth i Bwyllgor Cyfansoddiadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru – 11-9-2013

## Rôl Cymru ym mhroses benderfynu'r Undeb Ewropeaidd

## 1. Beth yw'r EESC a'i rôl yn y broses benderfynu?

Cafodd yr EESC - Pwyllgor Economaidd a Chymdeithasol Ewrop [eesc.europa.eu] – ei sefydlu yn 1958 fel Corff Ymgynghorol Statudol i'r Undeb Ewropeaidd.  Cafodd ei gyfrifoldebau eu cryfhau gan Gytuniad Lisbon mewn cydnabyddiaeth o bwysigrwydd cynyddol democratiaeth gyfranogol a'r angen i gynnwys dinasyddion yn fwy ym mhrosesau penderfynu'r Undeb.

Caiff ei ddisgrifio'n aml yn "chwaer gorff" Pwyllgor y Rhanbarthau y mae'r Cynulliad yn aelod ohono ac maent yn rhannu adnoddau Staff ac Adeiladau ar Rue Belliard ym Mrwsel.

Mae hefyd yn disgrifio ei hun yn "bont" rhwng cymdeithas sifil a'r Sefydliadau Ewropeaidd eraill, gan hyrwyddo deialog, cymodi safbwyntiau gwahanol, hwyluso lleisiau dinasyddion a hybu ymgynghori eang a thryloyw.

Mae ganddo tua 350 o Aelodau a benodir, nad ydynt ar gyflog misol, o bob un o'r 28 o Aelod-wladwriaethau gan adlewyrchu safbwyntiau ac arbenigedd Partneriaid Cymdeithasol [cyflogwyr, undebwyr llafur etc] a Phartneriaid Sifil [Busnesau Bach a Chanolig, Cyrff Anllywodraethol, Ffermwyr, y Proffesiynau, Addysgwyr, arbenigwyr ar Gwsmeriaid, Hyrwyddwyr Anabledd a Hawliau, a'r Sector Gwirfoddol cyffredinol].

Mae gallu'r EESC i ddylanwadu ar broses benderfynu'r UE yn dibynnu ar allu ei Aelodau, Staff ac Arbenigwyr i ddarparu datganiadau Barn ffurfiol ac anffurfiol o safon ar bob agwedd ar Bolisïau Ewropeaidd sy'n cael eu cyfeirio ato gan y Cyngor, y Senedd a/neu'r Comisiwn. Mae aelodau yn ymuno â gweithgorau ac Adrannau thematig i ymchwilio a dadlau, ac yn y pen draw dod i gytundeb drwy gyfarfodydd Llawn bob mis cyn anfon datganiadau Barn sy'n adlewyrchu safbwyntiau ystyriol yr EESC at y Cyrff penderfynu. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn ei dro yn ymateb yn ffurfiol ac yn gyhoeddus i'r datganiadau Barn hyn gan nodi eu dylanwad a'u perthnasedd. Mae cyfle hefyd i'r EESC gyhoeddi datganiadau Barn liwt ei hun i herio'r Sefydliadau neu ddatblygu meddwl newydd o gymdeithas sifil. Ymchwilir i'r mwyafrif o ddatganiadau Barn drwy wrandawiadau a chyfraniad aelodau o gymdeithas sifil ar draws yr Undeb, tra cydnabyddir bod llawer mwy o le i gynyddu lefelau cyfranogi, o ystyried y datblygiadau diweddar mewn technoleg a dyhead am Undeb Ewropeaidd mwy cynhwysol.

Mae'r Pwyllgor mewn cyswllt rheolaidd â Swyddogion y Comisiwn, Seneddwyr a Chomisiynwyr sy'n mynychu ac yn annerch y cyfarfodydd Llawn [fel y gwna Cynrychiolwyr Gwladol yn ystod cyfnod eu Llywyddiaeth ar y Cyngor].

Ar wahân i'w datganiadau Barn ar bolisïau, mae'r Pwyllgor yn cael ei gynrychioli mewn Cynadleddau Rhyngwladol ac yn gweithio gyda'r Pwyllgor Economaidd a Chymdeithasol – lle maent yn bodoli – mewn Aelod-wladwriaethau. Mae'n cynnal Diwrnod Agored, mae ganddo raglen addysg ysgolion ac mae'n hyrwyddo ymgyrchoedd yr UE, "Blwyddyn – ee – Gwirfoddoli, Dinasyddiaeth [2013]". Mae ef hefyd yn chwarae rôl wirioneddol yn helpu i baratoi gallu cymdeithas sifil mewn gwledydd sydd wedi gwneud cais i ddod yn aelod o'r UE yn

ogystal â datblygu cysylltiadau anwleidyddol â mudiadau cymdeithas sifil ar draws Cyfandiroedd.

**2-Beth yw rôl Cymru yn yr EESC ?**

Rôl Cymru yn yr EESC a'i gallu i ddylanwadu.

[sylw personol ac anwyddonol!]

Mae gan Gymru 3 Aelod o'r 23 o aelodau a enwebir o Lywodraeth y Deyrnas Unedig yn yr EESC sydd â 350 o aelodau. Cyn 2006, roedd gan Gymru 2 aelod medrus iawn ac uchel eu parch, sef Rose D'Sa a Brian Curtis. Yn 2005, bu i Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru [WCVA], mewn cydnabyddiaeth o bwysigrwydd cynyddol y Trydydd Sector i ddinasyddiaeth weithgar Cymru, cynwysoldeb y Cynulliad a Llywodraeth Cymru wrth weithio mewn partneriaeth fel esiamplau o werth i Wladwriaethau a Rhanbarthau Ewropeaidd eraill ac fel darparwyr a hwyluswyr Adnoddau a Rhaglenni o bwys yr UE, wneud cais i Brif Weinidog Cymru bryd hynny, Rhodri Morgan, y dylai Cymru gael mwy o gyfleoedd cyfranogi ar lefel Ewropeaidd. Rhan o'r cais oedd cynnwys enwebiad ychwanegol i'r EESC o Gymru o fewn Cyflenwad y DU, a chytunodd y Prif Weinidog i hyn. Mae pob Aelod, ar ôl cael eu penodi, yn gweithredu fel unigolion gan ddatblygu safbwyntiau sydd wedi'u seilio ar eu profiadau a'u harsylwadau yn ystod dadleuon a diwygiadau ar adeg pleidleisio. Serch hynny, mae Aelodau'r DU, fel y gwna rhai eraill, yn trefnu cyfarfodydd gyda Swyddogion Llywodraeth y DU sy'n cynnwys cynrychiolwyr Llywodraeth Cymru ym Mrwsel, er mwyn cyfnewid barn. Mae Prif Weinidog Cymru hefyd yn gwahodd yn rheolaidd y 3 Aelod o Gymru ac Aelodau o Senedd Ewrop i gyfnewid barn [pan fo dyddiaduron yn caniatáu!]

Mae Brian a Rose wedi chwarae rhan weithredol yn drafftio datganiadau Barn ac yn gweithredu fel Cadeiryddion a/neu Rapporteurs ac rwy'n ddiweddar wedi cael fy ethol i Bwyllgor Gweithredol yr Adran Wledig, Amaethyddol ac Amgylcheddol [NAT]. Hefyd, llwyddais i sicrhau'r hawl i siarad yn Gymraeg mewn cyfarfodydd Llawn, gyda chefnogaeth lawn Staff Llywodraeth Cymru ym Mrwsel. Yn wir, rwy'n cadw mewn cysylltiad rheolaidd â staff Llywodraeth Cymru ym Mrwsel sy'n gefnogol iawn. Ym mhob dadl ar ddatganiadau Barn perthnasol, rwy'n ceisio asesu unrhyw effaith negyddol neu bositif y gallai polisïau newydd gan yr UE ei chael ar Gymru. Pan nad oes gen i wybodaeth fanwl, gallaf ofyn am gyngor yn bennaf drwy WCVA neu fudiad perthnasol arall yn y gymdeithas sifil, er byddaf yn cymryd cyfrifoldeb llawn dros fy mhleidlais derfynol. Mae gan WCVA, drwy ei Swyddogion Polisi Ewropeaidd, fynediad at Bapurau Drafft yr EESC a gallant fy helpu i ffurfio barn drwy ledaenu cais am ymgynghori drwy fudiadau perthnasol. Mae hyn yn ymgais i wella cysylltedd a dylanwad rhwng Cymdeithas Sifil Cymru a Sefydliadau'r UE.

Gyda chymorth WCVA, rwyf hefyd wedi hwyluso ymweliadau gan Gydweithwyr a Swyddogion Ewropeaidd i Gymru ac i'r Senedd yn ogystal â hwyluso ymweliadau a chyfleoedd siarad i gynrychiolwyr cymdeithas sifil o Gymru mewn Gwrandawiadau ym Mrwsel. Mae fy ngwybodaeth o ddatblygu polisïau Ewropeaidd hefyd wedi rhoi'r cyfle i mi gyfrannu'n ddiweddar yma yng Nghymru, er enghraifft, fel aelod o Grŵp Cynghori Rhaglen Datblygu Gwledig [2014-2020] Gweinidog Amaethyddiaeth Llywodraeth Cymru. Bob tro caf gyfle, rwy'n ceisio siarad â mudiadau ac ysgolion am yr EESC a democratiaeth gyfranogol ar bob lefel o lywodraeth. Rwyf hefyd wedi defnyddio fforwm rheolaidd Llywodraeth Cymru ar Faterion Ewropeaidd i ymgysylltu â'n cynulleidfa yng Nghymru.

## Y Dyfodol

Gallai'r cynnydd parhaus yn nifer yr Aelod-wladwriaethau sy'n ymuno â'r Undeb roi pwysau ar rai Aelod-wladwriaethau i leihau maint eu Dirprwyaeth.  Gobeithiaf, gyda dim ond 3 aelod, na fydd gallu Cymru i ddylanwadu yn cael ei leihau.

Yr her i Aelodau yw codi ymwybyddiaeth o waith yr EESC a dod o hyd i ffyrdd newydd o ennyn diddordeb dinasyddion i ryngweithio â phenderfynwyr yr UE a dinasyddion eraill ar draws yr Undeb.

Tom Jones, aelod o'r EESC, 11-9-2013.